Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant
Model Gweithredu Targed

Cyfraith Teulu Breifat

Hydref 2026

Cynnwys

1. Diben a strwythur y ddogfen hon 3

2. Yr achos dros newid 5

2.1 Dysgu o'r dystiolaeth 5

Peilot y Cynllun Braenaru Cyfraith Breifat 6

Y cyd-destun polisi ehangach 6

3. Y Model Canolbwyntio ar Blant 9

3.1 Egwyddorion dylunio 9

3.2 Cyfnodau allweddol 9

3.3 Gwahaniaethau dylunio allweddol 10

Llais y plentyn 11

Casglu gwybodaeth ac adroddiadau 12

Asiantaeth gwaith cymdeithasol cyfrifol 13

Atgyfeirio at asesiad a chymorth risg cam-drin domestig arbenigol 13

Gwrandawiadau 14

4. Gweithio mewn partneriaeth 16

4.1 Trosolwg o'r dull aml-asiantaeth 16

4.2 Rolau a chyfrifoldebau allweddol: 16

GLITEF 16

Y Farnwriaeth ac ynadon 18

Cafcass / Cafcass Cymru 18

Awdurdodau Lleol 19

Gwasanaethau cymorth cam-drin domestig 20

Ymarferwyr cyfreithiol 21

5. Gofynion cyflawni 22

5.1 Capasiti 22

Paratoi a gweithredu 22

Cyflwr sefydlog 23

5.2 Seilwaith ategol 24

5.3 Gwybodaeth a hyfforddiant 24

6. Gofynion gwybodaeth a data 26

6.1 Y dystiolaeth gyfredol 26
6.2 Strategaeth ymchwil, dysgu a monitro 27
6.3 Gwybodaeth a gwella'r cyflwr terfynol 28
7. Atodiadau: 29
7.1 Geirfa 29
7.2 Dolenni 30

1. Diben a strwythur y ddogfen hon

Mae achosion plant cyfraith breifat yn cynnwys achosion lle gofynnir i'r llysoedd teulu wneud penderfyniadau ynglŷn â threfniadau ar gyfer plentyn, fel ble maent yn byw neu â phwy maent yn treulio amser. Mae Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn golygu diwygiad sylweddol i'r broses hon, gan ddisodli'r Rhaglen Trefniadau Plant blaenorol gyda model newydd sydd wedi'i gynllunio i wella ansawdd a phrydlondeb gwybodaeth gerbron y llys fel y gall barnwyr wneud penderfyniadau'n gynharach gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a llesiant y plentyn.

Ym mis Mawrth 2026, ymrwymodd Llywodraeth y DU i gyflwyno Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant ledled Cymru a Lloegr dros y tair blynedd nesaf; mae hyn yn golygu y bydd y model ar gael ym mhob ardal llys erbyn Mawrth 2029.

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o uchelgais a dyhead system gyfan ar gyfer dyfodol achosion cyfraith breifat, drwy Lysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant, yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ddogfen yn cydnabod yr angen i sicrhau cysondeb, tryloywder ac atebolrwydd wrth i bartneriaid ar draws y system cyfiawnder teuluol geisio cyflwyno'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant mewn ardaloedd llysoedd ychwanegol yn Lloegr.

Mae Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 a Chyfarwyddyd Ymarfer ategol yn nodi'r fframwaith gweithdrefnol cyfreithiol ar gyfer achosion teuluol. Mae llawer o'r Rheolau a'r Cyfarwyddyd Ymarfer hynny'n parhau i fod yn berthnasol i achosion sy'n gweithredu o dan y Model Canolbwyntio ar Blant. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 36Z yn nodi'r mathau o achosion lle mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn berthnasol ac yn ymgorffori Cyfarwyddyd Ymarfer 12B (Peilot), sy'n nodi gofynion gweithdrefnol cyfreithiol y Model Canolbwyntio ar Blant.

Mae'r gofynion gweithdrefnol cyfreithiol hynny'n cael eu hadlewyrchu yn y model gweithredu targed hwn. Hefyd, mae'r model gweithredu targed hwn yn adlewyrchu dysgu o gyflawni mewn meysydd presennol ac yn dod â phenderfyniadau polisi a dylunio ynghyd â realiti ymarfer gweithredol. Mae cadw at yr egwyddorion ac ymarfer, fel yr amlinellir yn y model gweithredu targed hwn, yn creu'r amodau ar gyfer cyflawni'r Model Canolbwyntio ar Blant yn llwyddiannus ac ar gyfer cyflawni newid system gyfan.

Mae'r model gweithredu targed wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan weithio â phartneriaid cyflenwi sy'n cynnwys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Fawrhydi (GLITEF), y farnwriaeth, Cafcass, Cafcass Cymru, Awdurdodau Lleol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a darparwyr cymorth cam-drin domestig lleol.

Mae Pennod 2 yn cyflwyno'r cyd-destun ar gyfer ein model gweithredu targed, gan amlinellu'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni drwy ddiwygio achosion cyfraith breifat a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud. Mae hefyd yn nodi rhai o'r amodau ehangach - er enghraifft, ymrwymiadau'r Llywodraeth mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, a sut mae cyflawni'n cyd-fynd â rhaglenni newid eraill fel diwygio digidol GLITEF.

Mae Pennod 3 yn nodi egwyddorion dylunio allweddol, gan gynnwys trosolwg o sut a pham mae'r model yn wahanol i'r Rhaglen Trefniadau Plant. Mae hyn yn cynnwys rhagdybiaethau cyflawni a lle gall hyblygrwydd wrth weithredu fod yn briodol. Mae'r bennod yn cynnwys map proses manwl o'r siwrnai o un peth i'r llall o dan y Model Canolbwyntio ar Blant.

Mae Pennod 4 yn rhoi trosolwg o rolau a chyfrifoldebau pob partner cyflenwi sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Model Canolbwyntio ar Blant.

Mae Pennod 5 yn nodi'r gofynion cyflawni allweddol ac mae'n ymdrechu i wahaniaethu rhwng yr adnoddau a'r capasiti sy'n ofynnol i weithredu'r model a gofynion parhaus – gan gynnwys, er enghraifft, gofynion cychwynnol o ran seilwaith a hyfforddiant.

Mae Pennod 6 yn cyflwyno'r gofynion data a gwybodaeth, gan gynnwys yr hyn sydd ei angen i ddeall effaith Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant ar blant a theuluoedd ac ar bartneriaid sy'n gweithredu'r model newydd.

Mae Pennod 7 yn cynnwys geirfa a dolenni defnyddiol mewn perthynas â Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant.

Bydd angen model gweithredu targed clir a chytunedig er mwyn cyflawni Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant sy'n cyrraedd safonau uchel cyson, mewn ffordd gynaliadwy yn ariannol. Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn golygu newid sylweddol i achosion cyfraith breifat ac, ynghyd â phartneriaid, rydym yn cydnabod yr angen i ddysgu, gwella ac o bosibl mireinio'r model wrth iddo gael ei weithredu'n genedlaethol. Felly, rydym yn disgwyl y bydd iteriadau pellach o'r model gweithredu targed.

Er ein bod wedi ceisio defnyddio iaith a fydd yn hygyrch i gynulleidfa ehangach, ac i adlewyrchu'r buddion yr ydym yn ceisio eu cyflawni i blant a theuluoedd, mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu'n bennaf at y rhai sy'n gweithio o fewn y system cyfiawnder teuluol.

2. Yr achos dros newid

2.1 Dysgu o'r dystiolaeth

Mae gennym gorff sefydledig o dystiolaeth sy'n dangos yn glir yr angen i wella profiadau a chanlyniadau i blant a theuluoedd sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat.

Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr adroddiad 'Assessing Risk of Harm to Children and Parents in Private Law Children Cases'[1] ((adroddiad y Panel Niwed'), a ddangosodd fod natur wrthwynebus achosion yn y llysoedd teulu yn achosi ail-drawma, ac mewn rhai achosion, yn erlid goroeswyr cam-drin domestig o'r newydd ac nad oedd llais y plentyn yn cael ei ystyried yn briodol mewn achosion, gan nodi "materion dwfn a systematig o ran sut mae risg i blant ac oedolion yn cael ei ganfod a'i reoli". Roedd yr Adroddiad hefyd yn feirniadol o hyd yr achosion, y defnydd aneffeithiol o adnoddau llysoedd a'r diffyg cymorth aml-asiantaeth cydgysylltiedig, yn enwedig i grwpiau agored i niwed gan gynnwys teuluoedd lle'r oedd risgiau diogelu.

Cyhoeddwyd adroddiad y Panel Niwed yn dilyn adroddiad cyfochrog Gweithgor Cyfraith Breifat traws-system dan arweiniad y farnwriaeth[2] ym mis Mawrth 2020, a oedd yn ystyried gweithredu'r Rhaglen Trefniadau Plant – gan nodi nad oedd yn gweithio'n ôl y bwriad gan dynnu sylw at nifer o heriau o ran ei weithredu. Ers hynny, mae adroddiadau gan Women's Aid[3], Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield[4] a swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig[5] wedi cadarnhau negeseuon allweddol y Panel Niwed.

Mae partneriaid ar draws y system cyfiawnder teuluol wedi croesawu'r adroddiadau hyn ac maent wedi ymrwymo i ddiwygio mewn achosion cyfraith breifat mwn ffordd sy'n:

- Symud i ffwrdd o system wrthwynebol i ddull sy'n ymchwiliol ac yn datrys problemau sy'n hybu diogelwch rhag niwed.
- Gwella'r ymateb i blant a rhieni sydd wedi profi cam-drin domestig, gan gynnwys effaith rheolaeth drwy orfodaeth a thrawma.
- Canolbwyntio ar a rhoi mwy o sylw i lais y plentyn trwy ymgysylltiad a chyfranogiad ystyrlon a diogel mewn achosion.
- Hybu gweithio aml-asiantaeth cydweithredol, gyda phwyslais ar y cyd ar ddod o hyd i atebion diogel a chynaliadwy i wella llesiant a chanlyniadau i blant.

[1] Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Cyfraith Preifat sy'n Ymwneud â Phlant
[2] Ymateb PLWG i'r ymgynghoriad
[3] Ymateb Cyfiawnder Teulu i Gam-drin Domestig – Yr Adroddiad
[4] Profiad plant o achosion cyfraith breifat: chwe neges allweddol o'r maes ymchwil
[5] Everyday-Business-full-report-web.pdf

Peilot y Cynllun Braenaru Cyfraith Breifat

Lansiwyd y Peilot Cyfraith Breifat yn Dorset a Gogledd Cymru ym mis Chwefror 2022 fel elfen allweddol o ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Adroddiad y Panel Niwed. Roedd y peilot yn gyfle i'r system cyfiawnder teuluol dreialu ffordd well o ddelio ag achosion cyfraith breifat, gan ddisodli'r Rhaglen Trefniadau Plant, a gweithredu diwygiadau yr ymrwymwyd iddynt mewn ymateb i Adroddiad y Panel Niwed.

Canfu gwerthusiad proses o'r peilot fod cyfranogwyr [6], o'i gymharu â'r Rhaglen Trefniadau Plant bresennol, yn cydnabod bod gwneud "llais y plentyn" yn ganolog mewn achosion yn agwedd hanfodol ar gyflwyno'r model. Roedd hyn yn cynnwys clywed a pharchu barn plant yn llawer cynharach yn yr achosion a sicrhau bod eu barn yn cael ei hadlewyrchu'n well wrth wneud penderfyniadau. Disgrifiodd plant yng Ngogledd Cymru eu profiad o'r model a bod rhywun yn gwrando arnynt fel 'rhyddhad', gydag un plentyn yn dweud eu bod yn teimlo bod "pwysau wedi'i godi oddi arnynt".[7]

Yn dilyn llwyddiant y peilot, ymrwymodd y Llywodraeth i gyflwyno'r model yn genedlaethol ledled Cymru a Lloegr. Wrth i'r broses o'i gyflwyno fynd yn ei blaen, rydym yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth yn fanwl, gan nodi cyfleoedd i wella, a sicrhau bod y buddion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cynllun peilot yn cael eu gwireddu'n gyson ym mhob ardal llys. Mae Pennod 6 yn cynnwys mwy o fanylion am y broses hon.

Y cyd-destun polisi ehangach

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn ganolog i gyfraniad y system cyfiawnder teuluol at ymrwymiad y Llywodraeth i haneru Trais yn erbyn Menywod a Merched. Amcangyfrifir fod rhwng 73% ac 87% o achosion cyfraith breifat yn ymwneud â cham-drin domestig[8]. Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn cyflwyno cymorth cam-drin domestig pwrpasol gydag asesiad risg arbenigol a chefnogaeth barhaus i deuluoedd sydd wedi profi cam-drin domestig. Disgrifiwyd hyn gan y Fonesig Nicole Jacobs, y Comisiynydd Cam-drin Domestig, fel "*profiad llawer iawn gwell i ddioddefwyr*".[9]

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant hefyd yn cefnogi'r ymdrechion ehangach i wneud prosesau llys yn fwy effeithlon trwy symleiddio proses y llysoedd; rhoi blaenoriaeth i gasglu gwybodaeth yn gynnar; symud o broses gwaith cymdeithasol dau gam i un Adroddiad Effaith Plant; lleihau'r angen am wrandawiadau llys niferus; a helpu i wella siwrnai'r defnyddiwr drwy weithio aml-asiantaeth a gwell cynnydd achosion.

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn annog gwneud penderfyniadau cynharach, gyda'r llysoedd eisoes yn cyflwyno'r model sy'n datrys achosion hyd at ddwywaith mor gyflym â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ogystal â metrigau 'perfformiad' y system o wrandawiadau

[6] Peilot y Cynllun Braenaru Cyfraith Breifat: deall profiad plant a theuluoedd - GOV.UK
[7] Profiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn achosion preifat yn y llysoedd teulu
[8] Everyday-Business-full-report-web.pdf
[9] Y Comisiynydd yn ymateb i asesiad y Llywodraeth o'r Cynllun Braenaru: Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

fesul achos, hyd achosion a llwyth achosion heb eu cwblhau, rydym yn gweld manteision ehangach yn sgil ei weithredu unwaith y bydd y Model Canolbwyntio ar Blant mewn cyflwr sefydlog o fewn ardal leol:

- gweithio aml-asiantaeth effeithiol gyda threfniadau lleol clir a chydgysylltiedig;
- datrys / cwblhau cynnar yn y gwrandawiad cyntaf yn aml;
- cynnydd yn nifer y plant sydd mewn cysylltiad â Cafcass/Cafcass Cymru;
- adborth gwell gan blant a theuluoedd;
- adborth cadarnhaol ar wasanaethau cymorth cam-drin domestig;
- lleihad yn nifer yr achosion sy'n dychwelyd.

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn cael ei gyflwyno yng nghyd-destun diwygio strategol ehangach a gwaith traws-system i leihau'r galw a chynyddu cynhyrchiant. Mae hyn yn cynnwys gwaith i helpu teuluoedd i ddatrys eu hanghydfodau heb ddod i'r llys, os yw'n ddiogel a phriodol i wneud hynny, ac yn fwy cyffredinol i helpu i ddatrys achosion yn gynharach, er enghraifft drwy barhau i fuddsoddi yn y cynllun talebau cyfryngu teuluol a thrwy dynhau'r eithriadau i ofynion Cyfarfodydd Gwybodaeth ac Asesiad Cyfryngu (MIAM). Er bod y Model Canolbwyntio ar Blant yn diwygio achosion cyfraith breifat, mae'n cyd-fynd â gwaith gwella mewn achosion cyfraith gyhoeddus sy'n ymwneud â phlant, drwy roi mwy o bwyslais ar ddulliau ymchwilio a datrys problemau, yn enwedig fel rhan o waith cyn achosion.

Mae gwaith cyfochrog sy'n cael ei wneud gan bartneriaid cyflenwi hefyd yn cyd-fynd â nodau strategol Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant ac mae'n helpu i ategu a gwreiddio'r newid diwylliannol sy'n ofynnol i'w gyflawni'n llwyddiannus. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

Diwygio GLITEF: Bydd achosion cyfraith breifat yn symud i blatfform digidol i foderneiddio profiad y defnyddiwr a hybu effeithlonrwydd (ar hyn o bryd mewn pedwar safle mabwysiadu cynnar). Bydd y gwasanaeth rheoli achosion digidol yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn raddol ym mhob un o'r 140 lleoliad llys teulu rhwng Hydref 2026 a Mawrth 2027, yn amodol ar drafodaethau parhaus gyda Llywydd yr Is-adran Deulu.

Y Farnwriaeth: Ynghyd â phartneriaid yn y system, mae'r farnwriaeth wedi bod yn ymgymryd â gwaith wedi'i dargedu i roi sylw i'r achosion sydd wedi para hwyaf ac i leihau'r ôl-groniad gwaith cyfraith breifat i greu'r amodau i gyflwyno'r Model Canolbwyntio ar Blant yn llwyddiannus. Wrth sôn am nodau'r Model Canolbwyntio ar Blant dywedodd Llywydd yr Is-adran Deulu, Syr Stephen Cobb, 'nid cyflawniad gweinyddol yn unig yw lleihau oedi: mae'n ganolog i gyfiawnder i blant. Os gallwn gyfuno effeithlonrwydd a dyngarwch, byddwn nid yn unig yn gwella'r system ond byddwn yn gwella ei diben hefyd'. Mae'r uwch farnwriaeth wedi mynegi cefnogaeth gref i'r Model Canolbwyntio ar Blant ac mae'n ei weld fel dull trawsnewidiol o redeg achosion cyfraith breifat, gan alluogi penderfyniadau ar sail gwybodaeth, sy'n ddiogel a heb oedi. Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau eraill ar gyfer y farnwriaeth sy'n cynnwys tryloywder yn y llysoedd teulu a'r ymrwymiad i newid diwylliannol ehangach mewn perthynas ag ymateb y llysoedd teulu i gam-drin domestig.

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant hefyd yn ategu ymdrechion barnwrol ehangach i gryfhau cyfranogiad plant mewn achosion teuluol, gan gynnwys "Ysgrifennu at Blant - Pecyn Cymorth i Farnwyr"[10] Llywydd yr Is-adran Deulu, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol. Mae pecyn cymorth Llywydd yr Is-adran Deulu yn helpu barnwyr i gyfleu penderfyniadau i blant mewn ffordd glir a hygyrch, gan eu helpu i ddeall sut y gwnaed penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac i roi sicrwydd iddynt fod eu dymuniadau a'u teimladau wedi'u hystyried yn ofalus.

Cafcass a Cafcass Cymru: Mae Cafcass a Cafcass Cymru wedi lansio eu 'Domestic Abuse Practice Pathway'[11] a 'Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig'[12] eu hunain sy'n ceisio gwella arferion gwaith cymdeithasol mewn perthynas â cham-drin domestig. Mae Cafcass a Cafcass Cymru hefyd wedi datblygu cyfres o lythyrau a deunyddiau ategol i wella'r ymgysylltiad â phlant a rhieni.

[10] Ysgrifennu at Blant – Pecyn Adnoddau i Farnwyr 2026

[11] domestic-abuse-practice-pathway

[12] Canllawiau ymarfer ar gyfer cam-drin domestig: Cafcass Cymru | LLYW. CYMRU

3. Y Model Canolbwyntio ar Blant

3.1 Egwyddorion dylunio

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn rhoi pwyslais ar wella'r profiad a'r canlyniadau i blant a theuluoedd wrth ddarparu proses llys aml-asiantaeth symlach a mwy effeithlon ar gyfer achosion cyfraith breifat. Mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r egwyddorion a nodir yn y Panel Niwed a oedd yn galw am:

- diwylliant diogelwch rhag niwed;
- dull sy'n ymchwiliol ac yn datrys problemau;
- adnoddau digonol ac sy'n cael eu defnyddio mewn ffordd fwy cynhyrchiol;
- ymagwedd fwy gydgysylltiedig rhwng gwahanol rannau o'r system.

Galwodd adroddiad y Panel Niwed hefyd ar sicrhau bod anghenion plant, ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, a'r rhai a effeithir gan gam-drin domestig a phryderon diogelu difrifol eraill yn ystyriaethau canolog, yn ogystal â'r egwyddorion dylunio. Mae'r rhain yn parhau i fod yn ganolog i ddiwygio'r model.

3.2 Cyfnodau allweddol

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn dilyn proses symlach sydd wedi'i chynllunio i gasglu'r wybodaeth gywir ar y cyfle cynharaf i ddeall anghenion y plentyn ac unrhyw risgiau i'w lles i helpu i wneud penderfyniadau diogel. Yn fras, mae'r camau sy'n gysylltiedig â'r broses fel a ganlyn:

- **Mae'r ymgeisydd yn gwneud cais**: mae rhiant neu ofalwr yn gwneud cais i'r llys i wneud penderfyniad ar drefniadau ar gyfer plentyn (o dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989) neu i orfodi gorchymyn trefniadau plant presennol.

- **Mae'r llys yn adolygu'r achos**: mae porthgadw cychwynnol yn nodi materion allweddol ac yn penderfynu pa asiantaeth gwaith cymdeithasol (Cafcass, Cafcass Cymru neu Awdurdod Lleol) ddylai gwblhau'r Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn.

- **Paratoi Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn:** cynhelir asesiad cyfannol o risg ac angen drwy gwblhau'r Adroddiad Effaith ar y Plentyn, gan ddwyn ynghyd wybodaeth diogelu, asesiadau proffesiynol, gwybodaeth am risg a barn y rhai sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y plentyn lle bo hynny'n briodol. Pan fo cam-drin domestig yn cael ei godi fel mater yn yr achos, gellir gwneud atgyfeiriad am gymorth trwy Gynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA). Gall yr IDVA ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol i'r dioddefwr a mewnwelediadau arbenigol i'r risgiau o gam-drin domestig yn yr achos.

- **Mae'r llys yn adolygu'r Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall i ddeall amgylchiadau ac anghenion llesiant y plentyn.**

- **Gwneir penderfyniad terfynol** – mae'r llys yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynir iddo, gydag anghenion a llesiant y plentyn yn ganolog. Nod y Model Canolbwyntio ar Blant yw cael cytundeb rhwng partïon lle bo hynny'n bosibl, a lle bydd angen penderfyniad barnwrol, sicrhau bod gan y llys yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad gyda golwg ar ddiogelwch a llesiant, yn aml heb yr angen am fwy nag un gwrandawiad.

Mae map proses ar gael ar gov.uk sy'n disgrifio'r broses yn fanylach. Mae'r map yn dangos siwrnai o'r dechrau i'r diwedd achosion cyfraith breifat o dan y Model Canolbwyntio ar Blant, gan ddechrau gyda chais i'r llys hyd at hysbysu'r plentyn o'r gorchymyn terfynol. Mae'r map yn rhoi'r broses gyfan ar un dudalen ac yn dangos cyfrifoldebau pob asiantaeth berthnasol drwy gydol y broses a'r amserlenni ar gyfer pob cam.

3.3 Gwahaniaethau dylunio allweddol

Mae nifer o wahaniaethau dylunio allweddol i'r Model Canolbwyntio ar Blant o'i gymharu â'r Rhaglen Trefniadau Plant. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl gyda manylion dilynol am sut mae'r model yn gweithio'n ymarferol.

Rhagdybiaeth ymarfer	Ymarfer o dan y Rhaglen Trefniadau Plant (PAC)	Ymarfer o dan y Model Canolbwyntio ar Blant
Casglu gwybodaeth ac adroddiadau	Adroddiad Llythyr Diogelu/Ymholiadau Diogelu ac Adroddiad Adran 7	Dull 'Un adroddiad, un gwrandawiad' lle bo'n bosibl: Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn, a ddylai gael ei gwblhau o fewn 50 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y gorchymyn.
Asiantaeth gwaith cymdeithasol cyfrifol	Bydd y llys yn gorchymyn Llythyr Diogelu/Adroddiad Ymholiadau Diogelu gan Cafcass/Cafcass Cymru. Gellir gorchymyn Adroddiad Adran 7 gan Cafcass, Cafcass Cymru neu'r awdurdod lleol, lle bodlonir meini prawf penodol.	Pan fo awdurdod lleol wedi cael cysylltiad penodol â'r teulu o fewn y 12 wythnos flaenorol, byddant yn cael gorchymyn i gwblhau'r Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn (CIR). Os nad yw awdurdod lleol wedi bod yn rhan o'r CIR, bydd Cafcass/Cafcass Cymru yn cael gorchymyn i gwblhau'r CIR.
Cyfran y plant y mae Cafcass / Cafcass Cymru yn ymgysylltu â hwy yn ystod y broses llys	Cyfartaledd o 30-37%	Isafswm o 65, a ragwelir hyd at 85%.

Atgyfeirio at asesiad a chymorth risg cam-drin domestig arbenigol	Dim llwybr atgyfeirio wedi'i gynnwys	Llwybr atgyfeirio wedi'i gynnwys ar gyfer cymorth Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) ac asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcian a cham-drin ar sail 'Anrhydedd' (DASH).
Gwrandawiadau	Adroddiadau niferus a gwrandawiadau niferus	Dull 'Un adroddiad, un gwrandawiad' lle bo'n bosibl.

Llais y plentyn

Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â magwraeth plentyn, mae'r "rhestr wirio llesiant" yn adran 1(3) o Ddeddf Plant 1989 yn nodi'r gofyniad i'r llys roi sylw penodol i restr o ffactorau, gan gynnwys dymuniadau a theimladau'r plentyn, a ystyrir yng nghyd-destun oedran a dealltwriaeth y plentyn. Er mwyn galluogi 'llais y plentyn', y gall plant gymryd rhan mewn achosion sy'n dilyn y Model Canolbwyntio ar Blant mewn sawl ffordd, os ydynt yn dymuno, gan gynnwys: ymgysylltu â swyddog o'r asiantaeth gweithwyr cymdeithasol wrth baratoi Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn; cael eu cynrychioli gan Warcheidwad Plant a benodwyd gan y llys (lle mae'r penodiad wedi'i wneud o dan reol 16.4 Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010); ysgrifennu at neu gwrdd â'r barnwr; ac, mewn amgylchiadau eithriadol, rhoi tystiolaeth yn uniongyrchol i'r llys.

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12B (Rhaglen Trefniadau Plant) yn nodi: "Lle bynnag y bo'n bosibl, a lle bo oedran yn briodol, disgwylir hefyd y bydd lleisiau'r plentyn / plant sy'n rhan o anghydfod yn cael eu clywed pan fydd penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cael eu gwneud," [PD12B paragraff 15]. Mae Cafcass a Cafcass Cymru yn ymgysylltu â 30 i 37% o blant ar gyfartaledd o dan y PAC ac mae'r ymgysylltiad hwn yn digwydd unwaith y bydd adroddiad Adran 7 wedi'i orchymyn gan na chaniateir i Cafcass/Cafcass Cymru gysylltu â'r plentyn cyn yr Apwyntiad Datrys Anghydfodau Gwrandawiad Cyntaf [PD12B paragraff 13.6]. Yn 2020, canfu'r Panel Niwed: "a large proportion of children have no direct involvement in the family court process, with parents or carers being relied upon to represent their views."

O dan y Model Canolbwyntio ar Blant, fel rhan o'r broses gasglu gwybodaeth ar gyfer yr Adroddiad o'r Effaith ar y Blentyn (CIR), disgwylir i'r asiantaeth gwaith cymdeithasol gyfrifol ymgysylltu â'r plentyn, oni bai bod y plentyn yn dewis peidio mynegi barn neu na fyddai hynny'n briodol. Felly, disgwylir i Cafcass a Cafcass Cymru ymgysylltu â 65 i 85% o blant, yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau'r plentyn. Rhagwelir hefyd y bydd awdurdodau lleol y gorchmynnir iddynt ysgrifennu'r CIR yn ymgysylltu â 100% o blant. Mae hyn oherwydd bod awdurdodau lleol yn cael gorchymyn i ysgrifennu'r CIR fel arfer lle os yw'r plentyn yn hysbys iddynt eisoes.

Y disgwyliad yw y bydd y gweithiwr cymdeithasol sy'n paratoi'r CIR yn ymgysylltu â'r plentyn, oni bai bod oedran, dealltwriaeth neu ddewisiadau'r plentyn yn golygu nad yw ymgysylltiad uniongyrchol yn briodol. Os nad yw'r plentyn yn siarad eto, gall y gweithiwr cymdeithasol arsylwi arnynt yn ymgysylltu â'r partïon.

Efallai y bydd achosion prin lle nad yw'n briodol ymgysylltu â'r plentyn, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gallai'r rhesymau dros beidio ag ymgysylltu â phlentyn gynnwys dim newid ers achosion blaenorol a diweddar, neu y byddai ymgysylltu'n achosi trawma i'r plentyn. Mewn achosion o'r fath, rhaid nodi'r rheswm dros beidio ag ymgysylltu â'r plentyn yn y CIR [PD12B (Peilot) paragraff 13.1A].

Casglu gwybodaeth ac adroddiadau

Mae achosion o dan y Rhaglen Trefniadau Plant (PAC) yn aml yn cynnwys o leiaf ddau adroddiad: Llythyr Diogelu neu Adroddiad Ymholiadau Diogelu a ysgrifennwyd ac a gyflwynwyd cyn y gwrandawiad cyntaf; ac Adroddiad Adran 7 yn ddiweddarach yn yr achos, os gweir gorchymyn gan y llys.

Mae'r Llythyr Diogelu (yn Lloegr) neu'r Adroddiad Ymholiadau Diogelu (yng Nghymru) yn adroddiad byr a baratowyd gan Cafcass neu Cafcass Cymru cyn y gwrandawiad llys cyntaf i nodi unrhyw bryderon diogelu ar unwaith ac i argymell y camau nesaf, megis asesiad pellach drwy Adroddiad Adran 7, gwrandawiad canfod ffeithiau, neu unrhyw drefniadau cyswllt interim.

Mae Adroddiad Adran 7 yn asesiad manwl a baratoir gan Cafcass, Cafcass Cymru neu awdurdod lleol pan fydd angen mwy o wybodaeth ar y llys i benderfynu pa drefniadau sydd er budd gorau plentyn. Mae'n ymdrin ag amgylchiadau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, gallu pob rhiant neu ofalwr i ddiwallu anghenion y plentyn, materion diogelu ac unrhyw risgiau a nodwyd, ac mae'n gwneud argymhellion i'r llys.

Yn unol â dull 'un adroddiad, un gwrandawiad', mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn disodli'r Adroddiad Llythyr Diogelu/Ymholiadau Diogelu ac Adroddiad Adran 7 gyda CIR cynhwysfawr a baratowyd yn gynnar yn y broses. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar gasglu gwybodaeth a rhoi darlun llawn i'r llys yn llawer cynharach yn yr achos. Mae'r CIR yn cyfuno gwiriadau diogelu, asesiadau risg (a all gynnwys asesiad risg DASH pan fydd cam-drin domestig yn cael ei nodi fel mater yn yr achos), dymuniadau, teimladau ac amgylchiadau'r plentyn, a barn y rhieni neu'r gofalwyr ar yr argymhellion mewn, i gyd mewn un adroddiad. Mae'r CIR hwn ar gael i'r barnwr neu'r ynad yn yr Apwyntiad Porthgadw Diogelu a chyn unrhyw wrandawiad y bydd y partïon yn eu mynychu**.**

O dan delerau'r model gweithredu targed hwn, dylai'r CIR gael ei gyflwyno'n ddim hwyrach na 50 diwrnod gwaith ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, oni bai bod estyniad yn cael ei roi gan y llys. Gellir caniatáu estyniad, er enghraifft, lle mae rheswm amlwg drwy hwyluso asesiad mwy cyflawn, diogel neu sy'n seiliedig ar wybodaeth o amgylchiadau a llesiant y plentyn, a lle byddai manteision asesiad ychwanegol yn gorbwyso effaith yr oedi ar y plentyn. Os bydd modd i asiantaethau gwblhau'r CIR o fewn llai o amser, disgwylir iddynt wneud hynny gan y byddai hyn yn ddiogel, yn briodol ac yn realistig mewn rhai achosion.

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn rhoi pwyslais cryf ar ymgysylltu â'r holl bartïon mewn achosion i sicrhau bod asesiadau'n cael eu llywio gan ddealltwriaeth lawn o amgylchiadau'r plentyn. Bydd angen i'r asiantaeth gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am gwblhau'r CIR (gweler isod) wneud ymdrechion rhesymol a chymesur i sicrhau

cyfranogiad, gan gydnabod y gall unigolion ymgysylltu mewn gwahanol ffyrdd. Os na ellir ymgysylltu, bydd penderfyniadau ynglŷn ag os a sut y gall achos fynd yn ei flaen yn cael eu gwneud ar ôl ystyried llesiant y plentyn, argaeledd digon o wybodaeth i gynnal asesiad dibynadwy, ac unrhyw bryderon diogelu a allai fod angen sylw'r llys.

Asiantaeth gwaith cymdeithasol cyfrifol

O dan y PAC, mae'r llys yn gorchymyn Cafcass neu Cafcass Cymru i gyflwyno Llythyr Diogelu/Adroddiad Ymholiadau Diogelu i'r llys o fewn 17 neu 20 diwrnod gwaith, yn y drefn honno [PD12B paragraff 22.3].

Gellir gorchymyn Adroddiad Adran 7 os bydd materion lles neu ystyriaethau penodol eraill yn codi. Gellir gorchymyn Cafcass neu Cafcass Cymru, neu awdurdod lleol i baratoi hwn. Yn ymarferol, bydd y llys fel arfer yn gorchymyn yr awdurdod lleol i gwblhau'r Adroddiad Adran 7 os: yw'r plentyn yn destun achos gwaith cymdeithasol statudol agored a gweithredol gyda'r awdurdod lleol; neu, yn y 12 wythnos cyn gorchymyn Adran 7, bu asesiad gwaith cymdeithasol statudol o lesiant y plentyn neu fod y plentyn wedi bod yn destun cynllun plentyn mewn angen neu gynllun amddiffyn plentyn.

Yn y Model Canolbwyntio ar Blant, os yw achos y plentyn yn agored i'r awdurdod lleol – neu wedi bod yn agored yn y 12 wythnos diwethaf (drwy achos gwaith cymdeithasol statudol agored a gweithredol, asesiad o dan Adrannau 17 neu 47 o Ddeddf Plant 1989, neu Gynllun Plant mewn Angen neu Gynllun Amddiffyn Plant gyda'r Ymddiriedolaeth neu'r Awdurdod Lleol), yna gall yr awdurdod lleol fod yn gyfrifol am gwblhau'r CIR. Mae hyn yn helpu â dilyniant ac yn osgoi dyblygu i blant a theuluoedd, gan fod gan yr awdurdod lleol wybodaeth berthnasol eisoes ac mae wedi bod â chysylltiad diweddar â'r plentyn a'r teulu. Y nod yw osgoi ail-drawmateiddio plant a theuluoedd o ganlyniad drwy orfod rhannu eu straeon a'u profiadau dro ar ôl tro gyda gweithwyr proffesiynol newydd pan fyddant eisoes wedi sefydlu perthynas â gweithwyr cymdeithasol.

Y llys sy'n gwneud y penderfyniad ynghylch pa asiantaeth gwaith cymdeithasol ddylai fod yn gyfrifol am ysgrifennu'r CIR. Yn Lloegr, yn y porthgadw cychwynnol, bydd y llys yn anfon pro-fforma at yr awdurdod lleol i weld a yw'r meini prawf wedi'u bodloni i alluogi'r awdurdod lleol i ysgrifennu'r CIR. Yng Nghymru, mae'r llys yn gorchymyn Cafcass Cymru i arwain ar y CIR, a fydd wedyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol ac yn hysbysu'r llys bod yr achos wedi'i drosglwyddo os yw'r meini prawf yn cael eu bodloni i'r awdurdod lleol allu ysgrifennu'r CIR.

Atgyfeirio at asesiad a chymorth risg cam-drin domestig arbenigol

Mewn ymateb i argymhelliad y Panel Niwed ar brosesau asesu risg gwell a gwell cydweithrediad amlasiantaethol, mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn ymgorffori llwybr atgyfeirio at wasanaethau cymorth cam-drin domestig a gellir gwneud atgyfeiriad (gyda chaniatâd y partïon) pan fydd cam-drin domestig yn cael ei godi fel mater mewn achos. Nid yw atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth cam-drin domestig yn ddibynnol ar rywedd. Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn datgan yn glir bod plant sy'n gweld, yn clywed neu'n profi effeithiau cam-drin domestig yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r

ddarpariaeth cymorth arbenigol i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn gyfyngedig ar hyn o bryd ond gellir ei gynnig o dan y Model Canolbwyntio ar Blant ac mae'n rhywbeth yr ydym yn parhau i'w ystyried. Pan wneir gwrth-honiadau o gam-drin domestig mewn achos, gellir cyfeirio'r ddau barti at wasanaeth IDVA am asesiad a/neu gymorth.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyllid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i gomisiynu gwasanaethau arbenigol lleol i gynnal asesiad risg o Gam-drin Domestig a Thrais yn seiliedig ar Anrhydedd (DASH) ac i ddarparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig.

Pan fydd cam-drin domestig yn cael ei godi fel mater yn yr achos, gall yr IDVA rannu'r DASH gyda'r asiantaeth gwaith cymdeithasol fel sail i ysgrifennu'r CIR ac i argymhellion y gweithiwr cymdeithasol i'r llys am yr hyn sy'n ddiogel ac er budd gorau'r plentyn. Gall yr IDVA hefyd rannu crynodeb o'u dyfarniad proffesiynol (wedi'i hysbysu gan y DASH ac offer asesu risg eraill ac y cytunwyd arno gan y dioddefwr) sy'n cael ei atodi i'r CIR. Felly, bydd y crynodeb yn cael ei weld gan y llys a'r partïon oni bai bod pryderon y gallai datgelu fod yn amhriodol neu'n anniogel.

Gwrandawiadau

Mae gan achosion o dan PAC fel arfer Apwyntiad Datrys Anghydfodau Gwrandawiad Cyntaf (FHDRA), ar ôl cyflwyno Llythyr Diogelu/Adroddiad Ymholiadau Diogelu. Os gorchmynnir Adroddiad Adran 7, bydd yr achos yn cael ei restru ar gyfer Apwyntiad Datrys Anghydfodau (DRA). Gellir cynnal gwrandawiadau eraill yn ystod achosion, gan gynnwys gwrandawiadau rheoli achosion, Gwrandawiadau Canfod Ffeithiau (FFHs), a Gwrandawiad Terfynol.

Un gwrandawiad yn unig ddylai fod ei angen yn y rhan fwyaf o achosion o dan y Model Canolbwyntio ar Blant – Gwrandawiad Penderfyniad. Os yw'r llys o'r farn bod hynny'n briodol, gellid cwblhau achos trwy wneud gorchymyn terfynol yn yr Apwyntiad Porthgadw Diogelu, heb wrandawiad a fynychir. Gallai hyn ddigwydd am fod y cam casglu ac asesu gwybodaeth wedi arwain at CIR cyfannol sy'n cynnwys yr wybodaeth a'r argymhellion sydd eu hangen ar y llys i wneud gorchymyn (penderfyniad) priodol a diogel, yn enwedig os yw'r partïon yn cydsynio i orchymyn gael ei wneud. Pan fydd y llys yn gwneud penderfyniad heb wrandawiad a fynychir, mae gan y partïon yr hawl i ofyn i'r llys ailystyried y penderfyniad, fel arfer o fewn saith diwrnod ar ôl gwneud y gorchymyn.

Pan fo materion heb eu datrys sydd angen rhagor o wybodaeth neu drafodaeth â'r partïon neu'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos, gall Gwrandawiad Penderfyniad yn aml ddatrys yr achos. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid rhestru gwrandawiadau ychwanegol trwy eithriad, er enghraifft drwy ddilyn y broses achos brys, neu lle mae gofyniad am Wrandawiad Canfod Ffeithiau, neu geisiadau gwrthwynebus i symud yn barhaol o'r awdurdodaeth.

Yn y Gwrandawiad Penderfyniad, bydd y llys – ar sail cynnwys y CIR – yn ymchwilio i'r materion yn yr achos gyda'r partïon ac yn eu hannog i ganolbwyntio ar les gorau'r plentyn.

Os, er gwaethaf cymorth y llys, ni all y partïon ddod i gytundeb, bydd y llys – lle bo hynny'n briodol ac os yw'n ddiogel i wneud hynny – yn datrys y materion sy'n achosi'r anghydfod ac yn dod â'r achos i ben trwy wneud gorchymyn(ion) terfynol.

Mae Gwrandawiadau Canfod Ffeithiau'n parhau i fod yn fesur diogelu pwysig o dan y Model Canolbwyntio ar Blant. Wrth adolygu'r CIR, bydd y llys yn ystyried a yw canfyddiadau ffeithiol yn angenrheidiol ac yn gymesur, yn nodi'r materion penodol sydd angen eu penderfynu, ac yn penderfynu cwmpas a ffurf unrhyw broses canfod ffeithiau. Mewn achosion sy'n ymwneud â honiadau o gam-drin domestig, bydd y llys yn ystyried a oes angen canfyddiadau i gael sail ffeithiol i asesu risgiau a gwneud penderfyniadau am lesiant y plentyn (yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer 12J). Er bod proses casglu gwybodaeth gyfannol y Model Canolbwyntio ar Blant yn helpu i ganfod a chyfyngu ar faterion dadleuol yn gynharach, bydd gwrandawiadau i benderfynu ar ffeithiau dadleuol yn parhau i gael eu defnyddio pan fydd angen i helpu i wneud penderfyniadau sy'n ddiogel ac wedi'u seilio ar wybodaeth.

Gall cynnal llai o wrandawiadau leihau oedi, gohiriadau hir, a hyd cyffredinol achosion, sy'n golygu bod plant a theuluoedd yn cael datrysiad yn llawer cynt. Gall hefyd ganiatáu i ddioddefwyr cam-drin domestig osgoi profiadau a allai ail-drawmateiddio drwy orfod mynychu'r llys. Mae cynnal llai o wrandawiadau hefyd yn sicrhau bod adnoddau llysoedd yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon.

4. Gweithio mewn partneriaeth

4.1 Trosolwg o'r dull aml-asiantaeth

Dyluniwyd y Model Canolbwyntio ar Blant mewn cydweithrediad â phartneriaid cyflenwi aml-asiantaethol – gan gynnwys y farnwriaeth, Cafcass, Cafcass Cymru, GLITEF ac Awdurdodau Lleol. Roedd rhanddeiliaid sydd â diddordeb arbennig yn y system cyfiawnder teuluol – gan gynnwys academyddion, ymarferwyr cyfreithiol a chynrychiolwyr o'r sector cam-drin domestig hefyd yn rhan o ddyluniad cychwynnol y Model Canolbwyntio ar Blant ac maent yn parhau i rannu adborth eu rhwydweithiau sydd mor werthfawr i ddeall sut mae'r model yn gweithredu'n ymarferol.

Ar wahân i'r dyluniad, mae'r Model Canolbwyntio ar Blant ei hun yn dibynnu ar sefydlu trefniadau gweithio traws-system lleol effeithiol sy'n ganolog i gyflawni mewn nifer o ffyrdd:

- Mae GLITEF a'r farnwriaeth yn gweithio gyda'i gilydd mewn prosesau porthgadw.
- Mae dyrannu'r gwaith o baratoi'r CIR i'r asiantaeth gwaith cymdeithasol gywir yn dibynnu ar ymateb amserol i ymholiadau cychwynnol yr Awdurdod Lleol perthnasol gan GLITEF yn Lloegr neu gan Cafcass Cymru yng Nghymru.
- Bydd yr asiantaeth sy'n gyfrifol am yr Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn yn cysylltu â'r heddluoedd lleol fel sy'n ofynnol ar gyfer archwiliadau'r heddlu.
- Mae canfod cam-drin domestig yn galluogi atgyfeirio at wasanaethau cymorth cam-drin domestig lleol sefydledig.
- Bydd yr asiantaeth gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r CIR yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol gan bartneriaid wrth asesu risg ac wrth wneud argymhellion i'r llys yn y CIR. Gall hyn gynnwys gwybodaeth gan yr heddlu, ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau lleol eraill yn ogystal ag unrhyw asesiad gan ddarparwyr cam-drin domestig lleol yn dilyn atgyfeiriad.
- Bydd yr asiantaeth gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am baratoi'r CIR yn ymgysylltu â'r plentyn, lle bo hynny'n briodol, ac yn sicrhau bod barn y plentyn, ynghyd â barn y rhieni neu'r gofalwr ar yr argymhellion, yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad.

4.2 Rolau a chyfrifoldebau allweddol:

GLITEF

Mae GLITEF yn helpu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael profiad o broses llys amserol, wedi'i rheoli'n dda drwy gydlynu cynnydd achosion a hybu gweithio amlasiantaethol. Yn benodol, mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn effeithio ar weithrediadau GLITEF yn y llys teulu drwy nifer o rolau gwahanol:

Cynghorwyr Cyfreithiol Barnwyr - Mae Cynghorwyr Cyfreithiol Barnwyr yn ymwneud â phorthgadw, llunio gorchmynion, gwaith bocs a rheoli ymholiadau, a phresenoldeb yn y llys (gydag a heb ynadon). Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn gofyn am lefel uwch o baratoi cyn y llys oherwydd hyd y CIR a phwyslais ar ddatrys problemau ar ffurf cymodi. Mae gwrandawiadau llys wedi'u rhestru ar gyfer cyfnodau hwy, ond mae llai ohonynt.

Mae'r Penodiadau Porthgadw Diogelu'n cymryd mwy o amser na phorthgadw o dan y model blaenorol. Mae Cynghorwyr Cyfreithiol Barnwyr yn cynorthwyo â phorthgadw a dyrannu, gyda'r barnwr a ddyrannwyd yn penderfynu ar y camau nesaf.

Staff gweinyddol a chyflawni – mae staff yn gyfrifol am brosesu ceisiadau, delio â ffioedd, rheoli ymholiadau, cysylltiadau barnwrol, gweinyddu rhestru, clercio llys, gweithredu mesurau arbennig, cyfarwyddo cyfryngwyr/cyfieithwyr, creu bwndeli, gohebiaeth, prosesu a drafftio gorchmynion llys. Mae'r broses llys symlach yn gofyn am swyddogaethau cynnydd achosion gwell i sicrhau bod partïon ac asiantaethau proffesiynol sy'n gysylltiedig yn ymwybodol o amserlenni cyflwyno, a dyddiadau gwrandawiad. Mae hyn yn cynnwys:

- anfon pro-fforma at Awdurdodau Lleol i benderfynu ar eu cyfraniad ar ddechrau'r achos (yr arfer yn Lloegr), a chaniatáu i'r porthgeidwad benderfynu'n gynnar pa asiantaeth ddylai fod yn gyfrifol am y CIR;
- cysylltu â chyfreithwyr yn bersonol dros y ffôn o fewn 5-10 diwrnod gwaith o gyflwyno'r cais i gydnabod derbyn y cais, cadarnhau eu dealltwriaeth o'r papurau, amlinellu proses y llys, cytuno ar unrhyw fesurau arbennig neu addasiadau rhesymol sy'n ofynnol ar gyfer presenoldeb y llys;
- os nodir risg uniongyrchol ar unrhyw adeg mewn achos lle mae Cafcass/ Cafcass Cymru yn paratoi'r CIR, rhaid hysbysu'r barnwr y bydd asesiad risg o dan adran 16A o Ddeddf Plant 1989 yn cael ei gyflwyno i'w hadolygu;
- monitro bod y CIR yn cael eu cyflwyno;
- prosesu ceisiadau am estyniad / trosglwyddo CIR.

Mae effeithiau ehangach y Model Canolbwyntio ar Blant ar GLITEF yn cynnwys y rhai sy'n deillio o'r gwahaniaethau allweddol rhwng y model a'r Rhaglen Trefniadau Plant. O dan y Model Canolbwyntio ar Blant, mae mwy o bwyslais ar brydlondeb, sy'n golygu bod yn rhaid prosesu'r gwaith yn gyflym ac yn effeithlon, gan gynnwys drafftio gorchmynion llys a rhestru materion ar gyfer gwrandawiadau.

Disgwylir i Arweinwyr Tîm a Rheolwyr Cyflenwi fod yn bwyntiau cyswllt sengl i Cafcass/Cafcass Cymru a'r Awdurdod Lleol ar gyfer unrhyw risg o ran cyflawni neu gynnydd mewn problemau. Mae gweithio amlasiantaethol yn cael ei helpu gan bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol ac yn ddiweddarach, cyfarfodydd rheolaidd busnes fel arfer.

Cymorth gwasanaeth – mae tîm newydd o fewn y Tîm Gwasanaeth Teulu ehangach i oruchwylio darparu'r Model Canolbwyntio ar Blant. Mae'r tîm yn gyfrifol am sicrhau bod y Model Canolbwyntio ar Blant yn cael ei gyflwyno yn unol â'r ethos, gan weithredu fel pwynt

uwchgyfeirio, rheoli rhanddeiliaid, ac integreiddio'r model o fewn mentrau Cyfraith Breifat ehangach.

Y Farnwriaeth ac ynadon

Mae barnwyr ac ynadon yn gwneud penderfyniadau am lesiant plant. Gwyddom o'r ffordd mae'n cael ei weithredu yn y safleoedd presennol bod y Model Canolbwyntio ar Blant yn ei gwneud yn ofynnol i farnwyr addasu eu ffordd o weithio, gyda'r nod cyffredinol y bydd penderfyniadau diogel yn cael eu gwneud yn heb oedi. Mae'r disgwyliadau o dan y Model Canolbwyntio ar Blant yn cynnwys y canlynol.

- Mabwysiadu dull ystyriol o drawma tuag at gam-drin domestig a cheisio deall sut y bydd y trefniadau a geisir yn effeithio ar y plentyn.
- Pan fo hynny'n briodol, penderfynu ar achosion Porthgadw Diogelu'n seiliedig ar gynnwys yr Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn. O dan yr amgylchiadau hyn gellir gwneud gorchymyn heb wrandawiad a fynychir.
- Cydnabod bod yr Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn yn rhoi gwedd gyflawn, gyfannol o'r effaith a gaiff y gorchymyn y gwneir cais amdano ar y plentyn. Dylai CIR gynnwys barn y partïon a (lle bo hynny'n briodol) y plentyn, ac felly, ni fydd presenoldeb Cafcass/Cafcass Cymru a gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol mewn gwrandawiad yn arferol.
- Gellir mabwysiadu dull datrys problemau a chymodi dan arweiniad barnwr lle bo'n ddiogel i wneud hynny yn y gwrandawiad penderfyniad, gyda'r nod o sicrhau bod materion yn cael eu cyfyngu a bod cytundeb diogel rhwng partïon, lle bynnag y bo modd.
- Bod yn agored i ystyried cyfranogiad plentyn neu berson ifanc yn gyffredinol – gallai hyn gynnwys siarad â'r plentyn neu gwrdd â'r plentyn, neu ysgrifennu at y plentyn, ac ystyried sut y bydd y plentyn yn cael eu hysbysu o'r canlyniad.

O ganlyniad i'r dull 'un adroddiad, un gwrandawiad', mae achosion yn gofyn am lai o adnoddau barnwrol mewn achos nodweddiadol o dan y Model Canolbwyntio ar Blant. Er y efallai y bydd angen rhywfaint o'r capasiti a ryddhawyd i wneud iawn am y cynnydd presennol yn nifer yr achosion, bydd y gweddill yn cael eu cyfeirio at rannau eraill o'r awdurdodaeth deuluol lle gellir ei defnyddio i wella effeithlonrwydd a pherfformiad.

Cafcass / Cafcass Cymru

Pan fyddant yn arwain ar baratoi'r CIR, bydd Cafcass a Cafcass Cymru yn gyfrifol am ddarparu asesiad a chyngor annibynnol, sy'n canolbwyntio ar blant i'r llys ac am sicrhau bod llesiant, diogelwch a phrofiad bywyd y plentyn yn ganolog i brosesau penderfynu yn y Model Canolbwyntio ar Blant. Mae hyn yn cynnwys annog cyfranogiad ystyrlon pob plentyn a fyddai'n elwa ar hynny, ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a theuluoedd ar yr

adeg briodol gynharaf, ymgymryd ag ymholiadau priodol, nodi ffactorau risg ac amddiffynnol, a gwneud dadansoddiad ac argymhellion clir drwy'r CIR.

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn cynnig ffordd dra wahanol o weithio i Cafcass a Cafcass Cymru. Mae'n symud asesu o broses dau gam (llythyr diogelu ac adroddiad Adran 7) i un CIR. Gall Cafcass a Cafcass Cymru atgyfeirio ymlaen at wasanaethau arbenigol lle mae cam-drin domestig wedi'i nodi fel ystyriaeth, naill ai o fewn y cais neu fel rhan o'r asesiad a gynhaliwyd wrth baratoi'r CIR. O'i gymharu â'r Rhaglen Trefniadau Plant, mae'r amserlen ar gyfer yr asesiad gwaith cymdeithasol, ar ffurf y CIR, wedi'i chwtogi - sy'n gofyn am ei chyflwyno o fewn y cyfnod a nodir yn y gorchymyn llys, oni bai bod estyniad penodol wedi'i ganiatáu.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, mae Cafcass a Cafcass Cymru yn gweithredu o fewn gofynion sefydliadol ehangach, gan gynnwys dyletswyddau statudol perthnasol, cyfrifoldebau diogelu, gofynion llywodraethu gwybodaeth, safonau proffesiynol, canllawiau ymarfer a gweithdrefnau gweithredu cenedlaethol. Dylai trefniadau gweithredu lleol gyd-fynd â llwybrau llywodraethu, dwysáu a dad-ddwysáu y cytunwyd arnynt, protocolau wrth gefn, disgwyliadau cofnodi a fframweithiau monitro perfformiad i sicrhau cyflawniad cyson, diogel ac amserol.

Mae cyflawni'r Model Canolbwyntio ar Blant yn effeithiol hefyd yn gofyn am brotocolau clir a threfniadau gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau cam-drin domestig a darparwyr arbenigol eraill. Dylai'r trefniadau hyn hybu canlyniadau da i blant drwy archwiliadau diogelu amserol, rhannu gwybodaeth briodol, canfod cam-drin domestig a ffactorau risg eraill yn gynnar, a defnydd o ymyriadau wedi'u targedu lle bo angen. Dylai trefniadau partner gael eu hategu gan bwyntiau cyswllt cytunedig, llwybrau atgyfeirio, amserlenni ymateb, llwybrau uwchgyfeirio a mecanweithiau ar gyfer datrys materion gweithredol.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd a goruchwylio rheolaeth yn bodoli o fewn Cafcass a Cafcass Cymru i gael hyder bod yr ymarfer ar gyfer plant yn ddiogel, yn gyson ac yn cyd-fynd â nodau'r model. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio cynnydd achosion, adolygu ansawdd a phrydlondeb Adroddiadau o'r Effaith ar y Plentyn, sicrhau arferion diogelu a cham-drin domestig, monitro cydymffurfiaeth ag amserlenni y cytunwyd arnynt, a goruchwylio unrhyw faterion lleol sy'n effeithio ar gyflawni. Defnyddir themâu o weithgarwch sicrhau ansawdd i wella arferion, dysgu a datblygu, ac i roi sicrwydd ehangach i raglenni.

Awdurdodau Lleol

Mewn achosion lle mae'r awdurdod lleol eisoes yn ymgysylltu â'r plant a'r teuluoedd, bydd yr awdurdod lleol yn arwain ar ymgysylltu ac yn rhoi cyngor i'r llys. Gwyddom, o dan y Model Canolbwyntio ar Blant, fod awdurdodau lleol yn cwblhau mwy o CIR nag o Adroddiadau Adran 7 yr oeddent yn eu cwblhau o dan y PAC. Mae awdurdodau lleol mewn ardaloedd cyflenwi presennol ar gyfer y Model Canolbwyntio ar Blant wedi datgan bod mwy o gyfranogiad yng nghyfnod cynnar yr achosion yn arwain at ostyngiad yn nifer

yr adroddiadau y gofynnir amdanynt o dan adran 37 o Ddeddf Plant 1989. Mae hyn wedi golygu newid ym mhroffil gwaith timau awdurdodau lleol ac mae angen hyfforddiant ac uwchsgilio ychwanegol mewn achosion cyfraith breifat yn gyffredinol, yn ogystal â'r Model Canolbwyntio ar Blant yn benodol.

Dylai awdurdodau lleol sy'n cael gorchymyn i gwblhau CIR wneud hynny ar dempled sydd bron yn union yr un fath â thempledi Cafcass/Cafcass Cymru (mae meysydd ychwanegol ar gael ar gyfer ymgysylltu ymlaen llaw â'r teulu ac unrhyw ystyriaethau o dan adran 37 o Ddeddf Plant 1989). Fel gyda Cafcass a Cafcass Cymru, disgwylir i awdurdodau lleol ymgysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc yn gynnar, cwblhau'r CIR o fewn yr amser a nodir yn y gorchymyn llys, gofyn am archwiliadau perthnasol yr heddlu, ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol a gomisiynwyd lle mae cyfeiriad at gam-drin domestig. Mae hyn yn sicrhau bod profiad y Model Canolbwyntio ar Blant yn gyson i blant a theuluoedd, p'un a yw eu CIR yn cael ei gwblhau gan Cafcass, Cafcass Cymru neu gan awdurdod lleol.

Presenoldeb yn y llys

O dan y Model Canolbwyntio ar Blant, bydd swyddogion perthnasol yr asiantaeth gwaith cymdeithasol yn mynychu gwrandawiadau yn ôl cyfarwyddyd. Os bydd cyfarwyddyd i fod yn bresennol, dylai hynny am fod angen iddynt roi tystiolaeth i helpu i wneud penderfyniadau. Os bydd y gweithiwr cymdeithasol perthnasol o'r farn bod eu presenoldeb mewn gwrandawiad yn debygol o fod er budd y plentyn, gallant ofyn am ganiatâd y Llys i wneud hynny. Bydd presenoldeb yn y llys wyneb yn wyneb fel arfer, ond gall fod o bell drwy gyswllt fideo, ac yn yr achos hwnnw bydd yn rhaid cael cytundeb y llys cyn y gwrandawiad.

Gwasanaethau cymorth cam-drin domestig

Mae gwasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol yn elfen ganolog o achosion cyfraith breifat a gyflwynwyd o dan y Model Canolbwyntio ar Blant ac ni chawsant eu hariannu na'u hymgorffori yn yr un modd o dan y Rhaglen Trefniadau Plant. Mae cyfrifoldeb y gwasanaethau cymorth cam-drin domestig o fewn y model yn ddeublyg:

(1) Darparu asesiad arbenigol o'r risg mewn yn achos cam-drin domestig

(2) Darparu cymorth i'r dioddefwr-goroeswr, gan gynnwys os gofynnir amdano a lle bo'n bosibl, yn y llys mewn gwrandawiad.

Disgwylir y bydd darparwyr lleol cymorth cam-drin domestig arbenigol yn gweithio'n glos â'r asiantaeth gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am gwblhau'r Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn. Bydd asesiad proffesiynol a chrynodeb o'r risg a'r effaith, y cytunwyd arno gyda'r dioddefwr-goroeswr, yn cael ei ddarparu gan yr IDVA i lywio eu hasesiad gwaith cymdeithasol ehangach a bydd y crynodeb yn cael ei atodi i'r CIR ei hun. Os oes gwrth-honiadau, darperir asesiad ychwanegol hefyd gan yr IDVA sy'n cefnogi'r parti arall. Er mwyn i gyfraniad y gwasanaeth cymorth cam-drin domestig gael ei ystyried yn briodol yn yr asesiad, yn y dadansoddiad ac argymhellion gwaith cymdeithasol i'r llys, disgwylir y

bydd y rhain yn cael eu darparu'n brydlon i'r asiantaeth gwaith cymdeithasol perthnasol. Yn ddelfrydol, dylid rhannu'r asesiad a'r crynodeb o'r risg ac effaith ag awdur y CIR o fewn 10 i 12 diwrnod gwaith, neu hyd at 15 diwrnod gwaith mewn achosion sy'n cynnwys gwrthhoniadau.

Mae darparwyr IDVA o dan y Model Canolbwyntio ar Blant yn arbenigwyr ac yn aml yn gweithio'n agos â gwasanaethau a sefydliadau cymorth cymunedol ehangach a gallant gyfeirio at y gwasanaethau hyn am gymorth ychwanegol neu barhaus.

Ymarferwyr cyfreithiol

Mae ymarferwyr cyfreithiol yn darparu cyngor a chynrychiolaeth i bartïon o dan y Model Canolbwyntio ar Blant, p'un a ydynt yn cael eu hariannu gan y parti neu o dan drefniadau cymorth cyfreithiol. Mae eu rôl yn parhau i fod yn bwysig drwy roi cyngor cyfreithiol a helpu partïon i ddeall y broses, i ystyried eu dewisiadau, ac i gydweithredu â'r llys. Mae ymarferwyr cyfreithiol yn darparu gwasanaeth gwerthfawr drwy helpu'r partïon drwy achosion cymhleth.

Nid ydym yn disgwyl y bydd defnydd o'r Model Canolbwyntio ar Blant yn cynyddu nac yn effeithio'n uniongyrchol ar nifer yr achosion Trefniadau Plant sy'n dod i mewn i'r system. Fodd bynnag, gall newid cyfranogiad arferol cynrychiolwyr cyfreithiol, gan adlewyrchu'r posibilrwydd o ddatrys materion yn gynharach, y posibilrwydd o wneud gorchmynion heb wrandawiad lle bo hynny'n briodol, a lleihau nifer a hyd y gwrandawiadau.

Cymorth Cyfreithiol

Mae cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion trefniadau plant gan ddefnyddio'r Model Canolbwyntio ar Blant os yw unigolyn wedi dioddef cam-drin domestig neu mewn perygl o gael eu cam-drin, neu os yw'r plentyn sy'n destun y gorchymyn yn ddioddefwr cam-drin plant neu mewn perygl o gamdriniaeth. Mae cyllid yn amodol ar ddarparu'r dystiolaeth ofynnol o gam-drin domestig neu gam-drin plant a phasio'r profion modd a theilyngdod. Gall cymorth cyfreithiol hefyd fod o fewn cwmpas achosion sy'n defnyddio'r Model Canolbwyntio ar Blant mewn achosion o dynnu plant o'r DU yn anghyfreithlon, yn amodol ar basio'r profion modd a theilyngdod.

Er mwyn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol, rhaid i ymarferwyr gael contract cymorth cyfreithiol teuluol â'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Ar ddechrau'r mater, bydd angen i'r darparwr cymorth cyfreithiol gyflwyno cais i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am dystysgrif i ofyn am grant cymorth cyfreithiol i'r cleient ar gyfer y mater hyd at lefel Cymorth i Deuluoedd (Uwch). Bydd angen penderfyniad pellach i roi Cynrychiolaeth Gyfreithiol os bydd y mater yn mynd ymlaen i Wrandawiad Penderfyniad.

Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd yn ystod y cam peilot, mae'r penderfyniad i roi Cynrychiolaeth Gyfreithiol wedi'i ddirprwyo i ymarferwyr cymorth cyfreithiol dros dro i sicrhau nad yw'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniad yn mynd yn rhwystr rhag cael cymorth cyfreithiol. Bydd hyn yn berthnasol yn unig i achosion Model Canolbwyntio ar

Blant lle mae tystysgrif eisoes wedi'i rhoi hyd at Gymorth i Deuluoedd (Uwch). Bydd y cyfrifoldeb am benderfynu a ddylid rhoi cynrychiolaeth gyfreithiol yng ngofal yr ymarferydd cymorth cyfreithiol o dan awdurdod dirprwyedig. Os byddant o'r farn bod angen cael penderfyniad gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, dylid gwneud hyn drwy'r broses arferol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar yr ateb tymor hir mwyaf priodol.

5. Gofynion cyflawni

Mae cyflawni'r Model Canolbwyntio ar Blant yn gofyn am dri cham: paratoi, gweithredu a throsglwyddo i gyflwr sefydlog. Ar gyfer rhai rhannau o'r system, mae'r model terfynol yn gofyn am lai o adnoddau nag o dan y PAC. Fodd bynnag, mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn cyflwyno gofynion newydd i'r system, gan gynnwys costau newydd, yn enwedig cyflwyno'r gwasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol. Dangosodd canfyddiadau o'r gwerthusiad proses gynnar fod costau system gyfan i gyflawni'r Model Canolbwyntio ar Blant yn weddol debyg i'r costau o dan y PAC; fodd bynnag, cydnabyddir fod proffil yr adnoddau a'r costau cysylltiedig ar draws gwahanol bartneriaid y system wedi newid. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, arbedion yn sgil lleihau amser llys a barnwrol fesul achos, ond mwy o adnoddau gwaith cymdeithasol i ymgysylltu â mwy o blant. Nodir isod yr hyn rydym wedi'i ddysgu am gapasiti, seilwaith a gofynion hyfforddiant i gyflwyno'r Model Canolbwyntio ar Blant.

5.1 Capasiti

Paratoi a gweithredu

Wrth baratoi a gweithredu, mae angen capasiti ychwanegol i gyflawni trawsnewid a “rhedeg dwbl” achosion cyfraith breifat dros dro. Mae rhedeg dwbl yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl mynd yn fyw lle mae'r system yn rheoli achosion a geir cyn mynd yn fyw o dan y PAC ochr yn ochr ag achosion newydd o dan y Model Canolbwyntio ar Blant. Mae amserlenni cyflymach y Model Canolbwyntio ar Blant yn achosi brig mewn llwyth gwaith gan fod y dyddiadau disgwyliedig ar gyfer cyflwyno adroddiadau a rhestru gwrandawiadau o'r ddau fodel yn gorgyffwrdd am gyfnod dros dro. Er mwyn rheoli'r cyfnod hwn, mae'r llwyth achosion PAC "etifeddiaeth" heb eu cwblhau’n cael ei leihau i’r graddau posibl cyn mynd yn fyw, yn y ffordd a ddisgrifir isod.

Yn GLITEF mae Rheolwr Gweithredu Lleol (LIM) yn ei swydd tua 6 mis cyn mynd yn fyw i gydlynu gweithredu'r Model Canolbwyntio ar Blant. Hefyd, mae adnoddau gweinyddol dros dro fel arfer yn cael eu hariannu cyn mynd yn fyw i helpu i leihau llwyth yr achosion etifeddiaeth. Ar yr adeg pan fyddant yn mynd yn fyw, ariennir adnodd ychwanegol Cynghorydd Cyfreithiol Barnwyr i borthgadw a helpu â gwrandawiadau yn ystod y cyfnod rhedeg dwbl. Bydd yr union adnodd a ariennir mewn ardal yn dibynnu ar y llwyth achosion sy'n weddill o'i gymharu â derbyniadau ochr yn ochr â meini prawf parodrwydd ehangach.

Bydd angen llawer llai o gyllid ar ardaloedd llys teulu sydd mewn sefyllfa gref. Dylai pob capasiti dros dro GLITEF ddod i ben 12 mis ar ôl mynd yn fyw.

Bydd capasiti dros dro yn Cafcass a Cafcass Cymru sy'n fwy na'r cynnydd parhaol yn cael ei ariannu i reoli'r cyfnod rhedeg dwbl. Bydd hyn yn cynnwys Cynghorwyr Llys Teulu a rolau perthnasol eraill. Bydd yr adnodd hwn ar gael ychydig fisoedd cyn mynd yn fyw a dylai weithredu tan 12 mis ar ôl mynd yn fyw.

Cyflwr sefydlog

O'i gymharu â'r PAC, mae gweithrediad sefydlog y Model Canolbwyntio ar Blant angen mwy o gapasiti ar gyfer Cafcass a Cafcass Cymru ynghyd â gofyniad newydd am wasanaethau cymorth cam-drin domestig.

O dan y Model Canolbwyntio ar Blant bydd pob achos bron yn gofyn am baratoi CIR. Er y bydd y CIR yn cael ei gwblhau gan yr awdurdod lleol mewn rhai achosion, ar y cyfan bydd hyn yn dal i olygu mwy o waith i Cafcass a Cafcass Cymru na'r gwaith tebyg o dan y PAC lle'r oedd angen adroddiad Adran 7 mewn cyfran lai o achosion. Hefyd ymgysylltir â mwy o blant yn ystod achosion o'i gymharu â'r PAC. Felly, mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn golygu cynnydd parhaol yn y cyllid ar gyfer Cynghorwyr Llys Teulu a rolau perthnasol yn Cafcass a Cafcass Cymru. Bydd maint y cynnydd parhaol yn amrywio rhwng ardaloedd llys teulu gan ddibynnu ar dderbyniadau cyfraith breifat perthnasol, cyfran yr achosion lle'r oedd angen adroddiad Adran 7 cyn hynny ac unrhyw newid sylweddol yng nghyfran yr achosion a ddyrannwyd i awdurdodau lleol.

Mae gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn cael eu cyflwyno o dan y Model Canolbwyntio ar Blant. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu asesiad risg proffesiynol a chymorth i ddioddefwyr sy'n cydsynio i gael eu hatgyfeirio. Mae'r gwasanaethau'n aml yn cael eu darparu yn unol ag ôl troed presennol gwasanaethau cam-drin domestig fel gwasanaethau lleol llai. Mae'r gwasanaethau hyn weithiau'n aelodau o sefydliadau mwy sy'n rhannu adnoddau a safonau proffesiynol. Mae gwasanaethau cam-drin domestig yn gofyn am IDVA achrededig cymwysedig, rheolwyr i oruchwylio'r gwasanaeth, a hyfforddiant yn ôl yr angen i ddarparu'r model. Bydd y cyllid lleol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yn dibynnu ar dderbyniadau cyfraith breifat perthnasol a nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaeth. Mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yn cael ei ddarparu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n ofyniad parhaol o'r model.

Nid oes gofyniad capasiti parhaol ychwanegol ar gyfer GLITEF o dan y Model Canolbwyntio ar Blant. Mae'r model yn cyflwyno galwad cynnydd achosion i bartïon heb gynrychiolaeth i esbonio proses y llys; mae hyn yn cael ei gyflawni gan y tîm gweinyddol. Mae gostyngiad hefyd yn nifer y gwrandawiadau fesul achos a gostyngiad cysylltiedig yn y gwaith sy'n ofynnol i restru, paratoi ar gyfer a chynnal y gwrandawiadau hynny. Mae effaith y newidiadau hyn ar y capasiti sydd ei angen gan GLITEF yn niwtral. I'r farnwriaeth, mae llai o wrandawiadau'n golygu gostyngiad net yn y capasiti barnwrol sydd ei angen ar y Model Canolbwyntio ar Blant.

Ar y cyfan, wrth gynnwys arbedion ehangach llai o wrandawiadau a hyd byrrach achosion, mae cyfanswm y capasiti sy'n ofynnol i gyflwyno'r Model Canolbwyntio ar Blant mewn cyflwr sefydlog yn debyg i'r capasiti sydd ei angen ar PAC. Mae'r newidiadau proffil i fod angen mwy o gapasiti gweithwyr cymdeithasol yn ogystal â chymorth domestig arbenigol, gydag angen am lai o gapasiti barnwrol.

5.2 Seilwaith ategol

Mae gweithredu a chyflawni'r Model Canolbwyntio ar Blant yn effeithiol yn gofyn am seilwaith i gynnal yr egwyddor gweithio aml-asiantaeth a phrosesau newydd o fewn y model. Yn ystod y cam gweithredu, bydd y Grŵp Gweithredu Lleol (LIG) yn cael ei sefydlu. Mae hwn yn fforwm ar gyfer yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â chyflawni'r model. Mae'r LIG yn caniatáu cydlynu gweithgarwch gweithredu ac uwchgyfeirio risgiau a phroblemau. Bydd y LIG yn cael ei ffurfio tua 6 mis cyn mynd yn fyw a bydd yn parhau i weithredu ar ôl hynny nes bydd yr ardal yn symud i gyflwr sefydlog. Mae sawl ffactor yn cael eu hystyried gan y rhaglen cyn y cytunir fod ardal yn barod i symud i gyflwr sefydlog, gan gynnwys lleihau achosion Rhaglen Trefniadau Plant etifeddiaeth, a data perfformiad sy'n dangos bod yr ardal yn gallu rheoli'r galw yn hyderus o fewn ei dyraniad adnoddau parhaol. Mae penderfyniadau ar barodrwydd i lansio ac ar barodrwydd i drosglwyddo i gyflwr sefydlog yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Rhaglen traws-system cenedlaethol, yn dilyn argymhelliad Bwrdd Parodrwydd Gweithredol atodol lle bydd yr asesiad lleol o barodrwydd, ac unrhyw risgiau yn cael eu hystyried yn fanwl.

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn cael ei ddarparu'n bennaf trwy seilwaith digidol presennol. Mae Cafcass a Cafcass Cymru wedi gwneud rhai newidiadau i'w systemau rheoli achosion i gynnal prosesau newydd o dan y model. Bydd y Model Canolbwyntio ar Blant yn cael ei helpu drwy gyflwyno gwasanaeth digidol Cyfraith Breifat GLITEF. Bydd y platfform digidol yn cynnig profiad mwy hygyrch a thryloyw i blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol drwy allu cwblhau ceisiadau, tystiolaeth a gweithgarwch rheoli achosion ar-lein. Bydd defnyddwyr yn elwa ar arweiniad cliriach, hysbysiadau amserol a gallu gweld cynnydd achosion yn well, gan eu helpu i ddeall ac i ymgysylltu'n well â'r broses llysoedd. Bydd trefniadau rheoli achosion a rhannu gwybodaeth ddigidol gwell hefyd yn hybu gweithio aml-asiantaeth mwy effeithiol, yn lleihau dyblygu ac oedi, ac yn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau amserol, sy'n canolbwyntio ar blant.

5.3 Gwybodaeth a hyfforddiant

Mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn golygu newid sylweddol mewn ymarfer i'r holl bartneriaid ac mae angen dull cydgysylltiedig a chynaliadwy o ran adeiladu gwybodaeth a hyfforddiant. Yn ystod y cam gweithredu, mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n lleol gyda chymorth a chydlyniant cenedlaethol yn rhan o'r dull o'i gyflwyno. Bydd gan bob ardal sy'n gweithredu'r Model Canolbwyntio ar Blant ddiwrnod partneriaeth lle bydd ymarferwyr o bob asiantaeth yn ei fynychu'n bersonol ar gyfer hyfforddiant ac ymgysylltu aml-asiantaeth ar egwyddorion a phroses o'r dechrau i'r diwedd.

Bydd asiantaethau unigol hefyd yn darparu hyfforddiant rôl-benodol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r Coleg Barnwrol wedi cyflwyno deunydd Model Canolbwyntio ar Blant fel rhan o'i hyfforddiant cenedlaethol. Bydd Cafcass a Cafcass Cymru yn cymryd ymagwedd strategol tuag at hyfforddi'r gweithlu ledled Cymru a Lloegr. Bydd gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol, Cynghorwyr Cyfreithiol Barnwyr, Ynadon a thimau gweinyddol yn cael eu hyfforddi'n lleol fel rhan o'r gweithgarwch paratoi a gweithredu.

6. Gofynion gwybodaeth a data

Mae'r dystiolaeth a'r bylchau mewn data ynghylch proses a chanlyniadau achosion cyfraith breifat yn ddigon hysbys. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Panel Niwed, y Comisiynydd Cam-drin Domestig[13], y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[14] i gyd yn tynnu sylw at heriau system-gyfan, gan gynnwys yr anallu i ddilyn siwrnai plentyn drwy'r system cyfiawnder teuluol o'r dechrau i'r diwedd ac i ddeall profiad ac effaith penderfyniadau a wneir mewn llysoedd teulu ar blant a theuluoedd.

Yn unol â'r argymhellion a nodir yn y ffynonellau hyn, rydym wedi ymrwymo i ddeall a dangos effaith Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant ar brofiad a chanlyniadau plant a theuluoedd.

Mae'r bennod hon yn nodi'r sylfaen dystiolaeth a'r data cyfredol, y cynlluniau sy'n cael eu datblygu i wella hyn, a sut y dylai hyn edrych yn y diwedd i Lysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant.

Er mwyn mynd i'r afael â heriau data ar draws y system cyfiawnder teuluol yn fwy cyffredinol, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sefydlu Is-grŵp Data newydd sy'n adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol. Mae'r Is-grŵp hwn yn dod ag uwch arweinyddion adrannau ac asiantaethau perthnasol y llywodraeth ynghyd i oruchwylio datblygiad a gweithredu strategaeth data cyfiawnder teuluol uchelgeisiol.

6.1 Y dystiolaeth gyfredol

Mae'r dystiolaeth gyfredol sydd ar gael i asesu cyflawni Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn erbyn amcanion strategol y rhaglen yn brin. O ran proses a chanlyniadau i blant a theuluoedd, mae'r adborth i asiantaethau unigol wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae plant yn cymryd rhan mewn nifer llawer uwch o achosion a chanfu ymchwil ar raddfa fach a gomisiynwyd yn 2023 gan Cafcass Cymru[15] fod plant yn teimlo eu bod yn cael eu clywed yn ystod trafodion, a bod y mwyafrif yn hapus â chanlyniad eu hachos. Fodd bynnag, mae'r maes hwn yn gofyn am ragor o waith i gael dealltwriaeth lawn o'r mater.

Daw'r data meintiol sydd ar gael yn uniongyrchol gan ddarparwyr GLITEF, Cafcass, Cafcass Cymru ac IDVA. Mae data GLITEF wedi'u cyfyngu gan yr wybodaeth reoli sydd ar gael ac nid yw wedi'i hintegreiddio'n llawn â data partneriaid eraill. Mae data perfformiad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan weithgor traws-system sy'n cwrdd yn rheolaidd i oruchwylio cynnydd ac i roi sylw i unrhyw broblemau. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol wedi cyflwyno targedau prydlondeb ar wahân ar gyfer achosion a reolir o dan y Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant a'r Rhaglen Trefniant Plant, gyda disgwyliad y bydd 80% o

[13] DAC_Family-Court-Report-_2023_Digital.pdf
[14] Gwella gwasanaethau llys teulu i blant
[15] Profiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn achosion preifat yn y llysoedd teulu

achosion sy'n canolbwyntio ar blant yn dod i ben o fewn 26 wythnos. Mae cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael ei fonitro a'i adrodd yn rheolaidd gan ddefnyddio gwybodaeth reoli GLITEF. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn cyflawni effeithlonrwydd o ran llai o hyd achosion a lefelau is o achosion sydd heb eu cwblhau.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd ar reolaeth ad hoc Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn cynnwys hyd achosion a llwyth achosion mewn ardaloedd a lansiwyd hyd at Ganolbarth a Gorllewin Cymru a Gorllewin Swydd Efrog, a lansiodd y Model Canolbwyntio ar Blant yn 2025. Gellir dod o hyd i'r data hyn yn gov.uk. Rydym yn rhagweld mai hwn fydd y cyhoeddiad ad hoc olaf a bydd adroddiadau data yn y dyfodol ar Lysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn cael eu cynnwys trwy adrodd rheolaidd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi.

Dangosodd canfyddiadau o werthusiad proses beilot Braenaru fod nifer y gwrandawiadau cyfraith breifat fesul achos yn gostwng o 5 i rhwng 1.3 - 1.4 a bod cyfraddau gwaredu yn gwella o dan y Model Canolbwyntio ar Blant. Defnyddiwyd hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd i lywio'r rhagdybiaethau ar adnoddau a nodir ym Mhenodau 4 a 5. Mae angen tystiolaeth bellach i ddeall yr arbedion system gyfan posibl sy'n gysylltiedig â'r Model Canolbwyntio ar Blant gan gynnwys amser barnwrol, Cyfraith Gyhoeddus a Chymorth Cyfreithiol.

6.2 Strategaeth ymchwil, dysgu a monitro

Er mwyn sicrhau y gallwn gymryd camau priodol ac amserol yn seiliedig ar allbynnau bydd gennym strategaeth ymchwil, dysgu a monitro ar waith. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar wella sut yr ydym yn casglu data ansoddol a meintiol, yn cynnal ac yn gweithredu ar ddysgu ymarfer cyflym, ac yn comisiynu ymchwil allanol. Bydd y gwaith hwn yn digwydd ar y cyd ag ehangu'r model ymhellach.

Rydym wedi neilltuo £500,000 i helpu swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i arwain 'cam dau' Mecanwaith Adolygu ac Adrodd y Llys Teulu. Mae hyn yn dilyn canfyddiadau a nodwyd yn yr Adroddiad cam cyntaf o'r enw "Busnes Bob Dydd" a bydd yn ystyried tair ardal Llys sy'n Canolbwyntio ar Blant, drwy brosiect dulliau cymysg i archwilio i brofiadau a chanlyniadau oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae hyn yn sail i'r maes ymchwil y disgwylir ei gwblhau yn 2028.

Mae dysgu ymarfer wedi'i ymgorffori yn y rhaglen i sicrhau dull traws-asiantaeth o gasglu, dadansoddi a chymhwyso dysgu wrth i'r model ehangu i feysydd llys ychwanegol. Bydd y themâu a'r materion i'w harchwilio drwy faes dysgu'r strategaeth yn sgil gwybodaeth a ddaw i'r amlwg, cwestiynau ymarfer a thrwy gomisiynau llywodraethu rhaglenni – mae rhai o'r themâu cyntaf sy'n cael eu harchwilio yn cynnwys ymgysylltu â phlant ac achosion sy'n dychwelyd.

Mae cyflwyno Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn gyfle pwysig i wella'r data yn y system cyfiawnder teuluol. O dan y llinyn monitro, byddwn yn defnyddio data gan yr holl

bartneriaid i gael gwybodaeth fanylach am brofiadau i blant a theuluoedd, gwella rheolaeth weithredol ac effeithlonrwydd, yn ogystal ag ymateb i ddiddordeb cyhoeddus a seneddol.

6.3 Gwybodaeth a gwella'r cyflwr terfynol

Er y bydd y strategaeth ymchwil, dysgu a monitro yn gwella dealltwriaeth o'r model ochr yn ochr â'i ehangu, mae'n hanfodol bod monitro a gwella wedi'u hymgorffori yng ngweithrediad terfynol Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant y tu hwnt i oes y rhaglen.

Bydd y mecanwaith a'r cyfrifoldebau i gyflawni hyn yn cael eu sefydlu ymhellach ar gyfer y TOM terfynol a thu hwnt wrth i elfennau o'r strategaeth ymchwil, dysgu a monitro gael eu cwblhau. Bydd fforymau traws-system lleol yn chwarae rôl allweddol i sicrhau arferion gorau a gwelliant parhaus yn y Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant.

7. Atodiadau:

7.1 Geirfa

C100	Ffurflen gais a ddefnyddir i wneud cais am Orchymyn Trefniadau Plant, Camau Gwaharddedig neu Orchymyn Mater Penodol o dan Adran 8 o Ddeddf Plant 1989.
C79	Ffurflen gais a ddefnyddir i wneud cais am i Orfodi Gorchymyn Trefniadau Plant, camau gwaharddedig neu Orchymyn Mater Penodol.
C1A	Ffurflen gais a ddefnyddir i fynegi pryderon i'r llys ynghylch cam-drin domestig a mathau eraill o niwed. Caiff ei chyflwyno fel arfer ar yr un pryd â C100 a gellir ei defnyddio i ymateb i honiadau a wnaed gan y parti arall. Y diben yw sicrhau bod y llys yn gwybod am unrhyw bryderon diogelu cyn gynted â phosibl.
C2	Ffurflen gais a ddefnyddir i ofyn i'r llys ymateb i fater tra bod yr achos yn mynd yn ei flaen. Gellid defnyddio hyn, er enghraifft, i ofyn i'r llys am wrandawiad brys neu ofyn am newid trefniadau cyswllt cyn y gwrandawiad terfynol.
CAP	Rhaglen Trefniadau Plant: y fframwaith a ddefnyddir gan y llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr i ddatrys anghydfodau rhwng rhieni sydd wedi gwahanu neu aelodau o'r teulu ynghylch trefniadau byw a chyswllt plentyn. Dyma'r fframwaith y mae'r Model Canolbwyntio ar Blant yn ei ddisodli.
Cafcass	Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Llys Plant a Theuluoedd: Mae Cafcass yn cynghori'r llysoedd teulu am lesiant plant a'r hyn sydd er eu budd gorau.
CIR	Adroddiad o'r Effaith ar y Plentyn: mae'n cael ei baratoi gan Cafcass, Cafcass Cymru neu Awdurdod Lleol, mae'r adroddiad yn cyfuno gwiriadau diogelu, asesiadau risg (gan gynnwys asesiad risg DASH pan fo cam-drin domestig yn nodwedd o'r achos), dymuniadau a theimladau'r plentyn, a barn rhieni neu ofalwyr ar yr argymhellion mewn un adroddiad.

DASH	Asesiad Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Cham-drin Seiliedig ar 'Anrhydedd'. Mae hwn yn asesiad risg sy'n helpu ymarferwyr i ganfod a deall y risg y mae dioddefwyr cam-drin domestig yn ei hwynebu.
FCA	Cafcass - Cynghorydd Llys Teulu: gweithwyr cymdeithasol cymwysedig sy'n cynghori'r llysoedd teulu mewn achosion sy'n ymwneud â phlant.
Porthgeidwaid	Cynghorwyr cyfreithiol a barnwyr sy'n gwneud penderfyniadau rheoli achosion.
IDVA	Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol: gweithiwr cymorth cam-drin domestig arbenigol sy'n darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr, emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr cam-drin domestig. O dan y Model Canolbwyntio ar Blant, mae'r IDVA hefyd yn cynnal asesiad risg ac yn rhoi mewnwelediadau arbenigol i'r llys i risgiau cam-drin domestig yn yr achos.
Etifeddiaeth neu PAC (achosion)	Achosion Rhaglen Trefniadau Plant nad ydynt wedi'u cwblhau cyn gweithredu'r Model Canolbwyntio ar Blant.
Parti	Mae parti yn rhywun sy'n ymwneud yn ffurfiol â phroses y llys. Gall fod yn rhiant neu bobl eraill â chyfrifoldebau rhieni, e.e. rhieni mabwysiadol.
Mesurau Arbennig	Darpariaethau i gynorthwyo partïon agored i niwed yn ystod achosion llys fel sgriniau, mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân i adeilad y llys, mannau aros ar wahân, cyfranogi trwy gyswllt fideo neu gymorth gan gyfryngwr.

7.2 Dolenni

Map Proses Dechrau i Ddiwedd o'r Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant

Diweddariad Gweithredol ar y Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant

Gwefan Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teulu: https://www.cafcass.gov.uk/children-and-young-people/family-justice-young-peoples-board

Gwefan Cafcass: https://www.cafcass.gov.uk

Gwefan Cafcass Cymru: https://www.llyw.cymru/cafcass-cymru

Rhagor o wybodaeth am gymorth cyfreithiol: https://www.gov.uk/legal-aid